

CORONAFEIRWS

Wrth i'r sefyllfa o ran y pandemig Coronafeirws (COVID-19) ddatblygu, rydym i gyd yn addasu i ddulliau gwahanol o fyw. Mae cyfarwyddyd digamsyniol y Llywodraeth i aros gartref wedi cyflym ddod yn realiti newydd. Nid ydym yn medru mynd allan bellach oni bai fod hynny'n hollol angenrheidiol a phan fyddwn yn camu allan, rhaid ymarfer ymbellhau cymdeithasol.

Tra bo digwyddiadau ledled y wlad yn cael eu canslo, neu eu gohirio hyd y gellir rhagweld, un digwyddiad a fydd yn mynd yn ei flaen – ond nid fel y'i bwriadwyd – yw dathliad Sul y Pasg pan gofiwn sut y gorchfygodd Iesu farwolaeth. Mae ei eiriau am fywyd newydd yn Efengyl Ioan yn ein gwahodd i ystyried beth mae hynny'n ei olygu i ni a'n cymunedau heddiw: "Yr wyf wedi dod er mwyn i ddynion gael bywyd, a'i gael yn ei holl gyflawnder". (Ioan 10:10).

Efallai bod adeiladau ein capeli ynghau ond fel Eglwysi rydym yn dal yn agored i garu a gwasanaethu ein cymunedau. Mae llawer o Eglwysi o bob enwad ledled Cymru wedi ymateb gyda dychymyg a chreadigrwydd i'r cyfnod heriol hwn. Mae gwasanaethau wedi cael eu ffrydio'n fyw ar You Tube a Facebook; astudiaethau Beiblaidd a chyfarfodydd gweddi wedi'u cynnal ar Zoom neu Skype a hyder mewn

medrau digidol newydd wedi'i ddarganfod. Ar y llaw arall gwnaed darpariaeth ar gyfer y rhai nad oedd ganddynt fynediad i'r rhyngwrwyd; paratowyd a dosbarthwyd myfyrdodau ysgrifenedig a sefydlwyd dolenni ffôn a alluogodd nifer o bobl i ymuno â'i gilydd i addoli. Diolchwn am bopeth a gyflawnwyd!

O ran cefnogaeth ymarferol mae llawer o'n Heglwysi yn ymwneud â Banciau Bwyd sy'n darparu adnodd hanfodol ar hyn o bryd. Mae eraill wedi gwirfoddoli i siopa dros gymdogion ac wedi dosbarthu taflenni trwy ddrysau yn cynnig help os oes angen. Gwneir nifer o alwadau ffôn trwy gydol y dydd yn cynnig cefnogaeth fugeiliol.

Ni wyddys am ba hyd y bydd y cyfyngiadau'n parhau ac mae angen i ni reoli a pharatoi ein hunain ar gyfer y tymor canolig. Ar adeg pan mae llawer yn ein cymunedau lleol yn bryderus ac yn ofnus mae gan yr Eglwys yn awr, yn fwy nag erioed, gyfle i gael ei gweld y tu hwnt i'r pedair wal.

Wrth inni ymateb i'r sefyllfa enbyd hon, gadewch inni wneud yr hyn a allwn – i garu, i gefnogi ac i ofalu am ein gilydd mewn ffordd sy'n anrhydeddu Crist gan fynd ati i arddangos helaethrwydd y bywyd a roddir inni yn Iesu.

AR GAEL AR WEFAN UBC:

Cyngor Coronafeirws: <http://www.buw.org.uk/24-mawrth-2020-diueddariat-coronafeirws/>

Cadw mewn Cysylltiad – Adnoddau ac Awgrymiadau: <http://www.buw.org.uk/cadw-mewn-cysylltiad-adnoddau-ac-awgrymiadau/>

Gwybodaeth Bwysig ynglŷn â Diogelwch:
<http://www.buw.org.uk/gwybodaeth-bwysig-diogelwch-ynglŷn-a-covid-19/>

Cyngor gan Yswirwyr Ecclesiastical:
<https://www.ecclesiastical.com/risk-management/managing-risk-covid-19/>

CYFARFODYDD BLYNYDDOL

UBC

**Cytunwyd i ohirio
Cyfarfodydd Blynyddol
UBC am y tro.**

UNDEB BEDYDDWYR CYMRU
AWR DUW YN GALW



Sul, Mehefin 21, Seion Newydd
17:00 Oedfa Gymun ym mhania
Pregethwr gwâdd Parchedig Dafydd Densil Morgan

Llun, Mehefin 22, Seion Newydd
12:00 Cofrestru
12:30 Y Gynhadledd
19:00 Oedfa'r Llywydd

Mawrth, Mehefin 23, Carmel, Pontlliw
09:15 Defosiwn

10:00 Y Gynhadledd gan gynnwys
Gwaith yr elusen 'Open Doors'
Darlith y Gymdeithas Heddwch

19:00 Oedfa'r Weinidogaeth
Pregethwr gwâdd Parchedig Vincent Watkins

MOMENTUM
10 - 11 JULY 2020



CHANGE THE ATMOSPHERE

South Wales Baptist College
South Wales Baptist Association
UBC
BMS

‘Croeso i Gymru’ - gweithwyr cenhadol yn cyrraedd Llanelli!

Roedd oedfa Eglwys Gobaith, Llanelli ar ddydd Sul, 5ed Ionawr yn wasanaeth arbennig a hanesyddol. Yn ystod y gwasanaeth, croesawodd y gynulleidfa weithiwr cenhadol newydd a'i deulu i gefnogi'r gwaith yn Gobaith, gwaith sy'n cael ei noddi gan Undeb Bedyddwyr Cymru.

Daw Nana a Sungsu Paek o Seoul, Korea. Maent wedi dod i Gymru gyda'u tair merch, Seowon (13), Seojin (11) a Seoa (6) sydd erbyn hyn wedi dechrau ymgartrefu yn yr ysgol yn Llanelli. Wedi'r gwasanaeth croesawodd yr aelodau y teulu gyda snaciau arbennig Coreaidd, cacennau Cymreig ac wrth gwrs 'dysgled o de'!

Teimlodd Nana & Sungsu alwad gref i wasanaethu Duw yng Nghymru ers peth amser a bu'r ddau'n gwasanaethu yn Llanelli yn ystod 2017-2018. Gweinidog yw Sungsu, a'i wraig Nana'n weithiwr bugeiliol. Yn ystod eu cyfnod yng Nghymru, daethant i garu'r Eglwys yn Gobaith a phan oedd yn rhaid iddynt ddychwelyd i Korea yn 2018 teimlent yn sicr y byddent yn dychwelyd.

Ers i Undeb Bedyddwyr Cymru gofrestru fel noddwr ar gyfer gweithwyr crefyddol gyda'r gwasanaeth FISA a Mewnffudo yn y DU, mae llawer o waith wedi'i gyflawni er mwyn ei gwneud hi'n bosibl i'r hyn yr ydym bellach yn ei alw'n 'genhadaeth tu chwith'. Lle'r oedd Cymru unwaith yn anfon cenhadon dramor, fel Robert Jermaine Thomas a Timothy Richard, rydym yn cydnabod ein hangen am genhadaeth gartref yng Nghymru. Fel gweithwyr cenhadol, mae Nana a Sungsu yn gyfrifol am eu holl gynhaliath eu hunain ac yn cael eu cefnogi gan yr eglwys sy'n eu hanfon. Maent yn ein gwasanaethu ni yma yng Nghymru,



Nana a Sungsu Paek a'u plant Seowon, Seojin a Seoa

yn llawn ffydd y bydd Duw yn darparu ar eu cyfer.

Ar ddydd Gwener 27ain o Ragfyr 2019 buom yn disgwyl yn bryderus am ddyfodiad Nana, Sungsu a'r plant ym maes awyr Heathrow. Clod i Dduw fod hyn oll wedi mynd yn esmwyth a'u bod yn awr yn byw ac yn gweithio yng Nghymru gyda'r Eglwys leol.

Cofiwch am y teulu Paek yn eich gweddïau wrth iddynt gefnogi'r Parchg Paul Smethurst a Robyn ei wraig.

CORONAFEIRWS

Ceir atodiad o un dudalen ychwanegol i'r rhifyn hwn o'r Negesydd sydd yn cynnwys anogaeth i'n Heglwysy ar gyfer y cyfnod heriol hwn yn ein hanes.

Dymunwn fendith gyfoethog Duw ar bawb wrth inni bwyso ar y Bugail Da gan wybod am ei ofal tyner a thrugarog trosom ni oll.

"Dros Gymru'n Gwlad, O Dad Dyrchafwn Gri"

Eleni mae Undeb Bedyddwyr Cymru yn annog eglwysi a chynulleidfaoedd i neilltuo'r flwyddyn 2020 yn flwyddyn o weddio.

Wrth inni gychwyn ar ddegawd newydd, mae Bwrdd y Genhadaeth yn teimlo fod angen pwyslais newydd ar weddi. Fel Cristnogion, credwn yn nerth gweddi a bod deisfyfiadau taer yn gwneud gwahaniaeth.

Mabwysiadwyd y syniad o neilltuo'r flwyddyn gyfan yn flwyddyn o weddi gyda'r gobaith y bydd ein heglwysi ledled Cymru yn cymryd y cyfle i ymuno fel un teulu bedyddiedig i weddio dros waith y deyrnas yn ein gwlad.

Yn ystod y flwyddyn bydd pecynnau gweddi yn cael eu dosbarthu i eglwysi a gweinidogion yn cynnwys amrywiaeth o adnoddau, syniadau ac awgrymiadau i annog eglwysi a chynulleidfaoedd i weddio. Dechreuwyd yr ymgyrch ym mis Rhagfyr 2019 gyda phecyn "Gweddiau Disgwyl" ar gyfer cyfnod yr Adfent a'r flwyddyn newydd. Dilynwyd hyn gyda'r ail becyn "Gweddiau Paratoi" sy'n darparu gweddiau a myfyrdodau i'w defnyddio yn ystod cyfnod y Grawys, Dydd Gŵyl Dewi a'r Pasg. Bydd rhagor o becynnau i ddilyn adeg y Pentecost a chyfnod y cynhaeaf a'r diolchgarwch.

Wrth inni barhau i weddio fel un teulu Bedyddiedig ar draws Cymru, hoffem glywed sut y bu gweddi yn flaenoriaeth i chi a'ch eglwys yn ystod y flwyddyn. Os oes gennych stori neu syniad yr hoffech eu rhannu, byddwn yn falch o glywed gennych, trwy e-bost simeon@ubc.cymru neu drwy gysylltu â ni yn Y Llwyfan, drwy'r post neu dros y ffôn.

Diolchir i Geoff Champion o Gymanfa Gwent am ddanfôn yr hanes am ymdrechion Cymanfa Bedyddwyr Gwent i weddio am 24 awr.

Gweddi 24 Awr - "Ni fethodd gweddi daer erioed â chyrraedd hyd y Nef"



"Os ydych chi'n credu yn nerth gweddi - gweddiwch a pharhewch i weddio!" Dyna oedd yr her a roddwyd i eglwysi Bedyddwyr Gwent mewn cyfarfod arbennig i ddiweddu cyfnod o weddi 24 awr a gynhaliwyd yng nghapel Y Tabernacl, Trecelyn ar 25 Ionawr 2020.

Roedd y digwyddiad gweddi 24 awr, a drefnwyd gan y Parchg Jonathan Forman (Blaenau Gwent, Abertyleri) ar ran Cymanfa Gwent, yn un o sawl digwyddiad a gafodd ei drefnu i nodi Blwyddyn Weddi Undeb Bedyddwyr Cymru. Penderfynodd rhai eglwysi gynnal cyfarfodydd gweddi estynedig tra cyfarfu eraill ar amseroedd penodol o fewn y cyfnod 24 awr.

Nod y digwyddiad oedd annog pob aelod o'r 'teulu Bedyddiedig' i geisio Duw a'i arweiniad wrth i'n heglwysi wynebu heriau cynyddol y gymdeithas seciwlar yr ydym yn byw ynddi. Paratodd Jonathan becyn gweddi hawdd ei ddefnyddio gyda darlleniadau ac awgrymiadau gweddi ar gyfer y cyfnod 24 awr. Rhoddwyd sylw arbennig i'r modd y llwyddodd Dafydd i gadw perthynas agos gyda Duw ar hyd llwybr bywyd fel y tanlinellir yn Salm 23. Yn y cyfarfod terfynol arbennig, siaradodd y Parchg Simeon Baker,

Cyfarwyddwr Cenhadaeth UBC am yr angen am weddi mewn cyd-destun Cymru gyfan ac am y datblygiad ym maes cenhadaeth yr Undeb sydd wedi agor y ffordd i genhadon o dramor ddod i gynorthwyo gwaith ein heglwysi yma yng Nghymru. Canolbwyntiodd Tim Moody, Gweinidog Cynorthwyol Moriah, Rhisga, ar yr angen i weddio dros eglwysi Cymanfa Gwent gan ein hannog a'n herio "Os ydych chi'n credu yn nerth gweddi - gweddiwch a pharhewch i weddio".

Dywedodd y Parchg Jonathan Foreman: "Roedd yn brofiad gwych i weddio gyda'n gilydd gydag un galon wrth inni geisio gwasanaethu Duw a'r Arglwydd Iesu yn well."

Adroddiad gan Geoff Champion, Cymanfa Bedyddwyr Gwent



Brecwast Gweddi Sir Benfro 2020



Cododd yr haul yn braf ym mhentre' Cas-blaidd ar fore Sadwrn, Chwefror 29ain, bore Brecwast Gweddi Sir Benfro. Daeth tua 115 i'r digwyddiad, y trydydd un mor belled. Wedi brecwast blasus Cymreig, cafwyd addoliad bywiog o dan arweiniad y Parchg Rhys Llwyd a'i briod, Menna. Yna, braint oedd cael gweddio dros sefyllfaoedd arbennig yn y sir a chofio'n benodol am sefyllfaoedd heriol ym myd amaeth, pwysau gwaith athrawon, argyfwng gofal iechyd a chyflwr bregus y dystiolaeth Gristnogol.

Gweinidog yng Nghaersalem Caernarfon, Calfaria Penygroes ac Ebeneser Llanllyfni yw Rhys, wedi gweinidogaethu yn y capeli ers bron deg mlynedd. Cawsom anerchiad cynnes, heriol a doniol ganddo. Soniodd am ein cyfrifoldeb i ddal ein hyder yn efengyl Iesu Grist, heb unrhyw gywilydd o gwbl, yn y sicrwydd bod Duw yn dal ar waith yng Nghymru. Dyma'i anogaeth:-

"Peidiwch hel atgofion am y gorffennol, a dim ond meddwl am beth ddigwyddodd o'r blaen! Edrychwch, dw i'n gwneud rhywbeth newydd! Mae ar fin digwydd! Ydych chi ddim yn ei weld? Dw i'n mynd i agor ffordd drwy'r anialwch, a rhoi afonydd yn y tir diffaith." (Eseia 43:18-19).

Wedi'r anerchiad, cafwyd amser o weddi o gwmpas y byrddau, cyn cloi gydag emyn Lewis Valentine, "Dros Gymru'n gwlad, O Dad, dyrchafwn gri."

Dyma flas ar y negeseuon wedi'r Brecwast Gweddi,

"Pawb wedi mwynhau'r siaradwr a'r cig moch!"

"Bore arbennig, diolch yn fawr - wedi bwyta gormod"

"lleoliad braf a chyfleus",

"nes i fwynhau'r brecwast yn fowr iawn,"

"neis clywed pregethwr ifanc yn siarad mor dda!"

Saif gwesty Alltyrafon o dan gysgod craig enfawr, sy'n debyg iawn i flaid yn codi pen i gyfarch y lleuad. Felly, siâp y graig sydd wedi rhoi'r enw "Cas-blaidd" i'r pentref. Fel Cristnogion, nid bleiddiaid yn dyrchafu'n cri i'r lleuad yr ydym, ond plant yn cyfarch eu tad nefol, gyda hyder yn ei ffyddlondeb a'i gyfiawnder.

"Mae e fel craig, a'i waith yn berffaith; mae bob amser yn gwneud beth sy'n iawn. Bob amser yn deg ac yn onest – yn Dduw ffyddlon sydd byth yn anghyfiawn."

(Deuteronomium 32:4)

Bore braf a bore bendithiol!

Parchg Geraint Morse



Dathlu Gŵyl ein Nawddsant yn Y Senedd

Braint oedd cael gwahoddiad i Frecwast Gweddi Seneddol Gŵyl Ddewi ar Fore Iau, Mawrth 5 – digwyddiad a gynhaliwyd am y drydedd flwyddyn, ac a drefnwyd gan Darren Miller AC.

Ar y noson flaenorol cynhaliwyd Derbyniad Rhyngwladol yn y Senedd, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o UDA. Dathlu oedd thema'r noson. Cafwyd cyflwyniad gan Dr Dafydd Tudur o'r Llyfrgell Genedlaethol ar gyfieithiadau gwahanol o'r Beibl, gan ganolbwyntio ar gyfieithiad Dr John Davies o'r Beibl yn 1620 – union 400 mlynedd yn ôl. Hyfryd oedd cael gweld enghreifftiau o'r Beiblau cynnar yn cael eu harddangos.

Dathlu canrif bodolaeth yr Eglwys yng Nghymru oedd thema'r cyflwyniad a gafwyd gan yr Athro Norman Doe, yn amlwg yn arbenigwr yn y maes ac yn olygydd y llyfr newydd "A New History of the Church in Wales". Llwyddodd i gyflwyno'r wybodaeth mewn arddull syml a dealladwy. Diolch iddo am gyflwyniad yr hir gofir amdano.

Bore Iau gwelwyd cant o wahoddedigion yn eistedd i lawr i Frecwast yn adeilad y Pierhead, ac yn cael eu cludo'n ôl mewn amser i werthfawrogi ysblennydd y cyfnod a fu yn hanes yr adeilad.

Cyfoethogwyd yr achlysur gan areithiau byr ond pwrpasol i'r digwyddiad gan Rebecca Evans AC, Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS a'r Parchedicaif John Davies, Archesgob Cymru. Roedd gweddïau yn rhan bwysig o'r rhaglen, gyda phwyslais ar ddigwyddiadau cyfoes ein dydd.

Gwerthfawrogwyd perfformiadau cerddorol safonol ac addas i'r achlysur gan "Sound of Wales" a'r cantorion Huw ac Elizabeth Priday, i gloi dathliad a erys yn hir yn y cof. Pa well ffordd o ddathlu Gŵyl ein nawddsant? Diolch i Darren Miller am ei drefnu!

**Mr David A E Peregrine
Llywydd UBC**

Cynhadledd Gweinidogion Saundersfoot 2020

Cyflwyno Cameron Roxburgh a Forge Cymru



Cam Roxburgh

Yn ystod yr unig wythnos o dywydd sych ym mis Chwefror, teithiodd dau grŵp o Weinidogion ac arweinwyr i Saundersfoot ar gyfer y gynhadledd flynyddol. Roedd eleni'n arbennig gan y gwelwyd y nifer fwyaf o bobl yn mynchu'r gynhadledd ddi-Gymraeg; ac am y tro cyntaf yn Saundersfoot, cynhaliwyd Cynhadledd ar gyfer Gweinidogion Cymraeg eu hiaith gyda nifer dda o weinidogion yn bresennol.

Ein prif siaradwr ar gyfer y ddwy gynhadledd oedd Cameron Roxburgh o Vancouver, Canada. Mae Cam yn rhan o'r rhwydwaith Forge sy'n ymwneud â chynorthwyo enwadau ac eglwysi yn fyd-eang i feddwl o ddifrif am genhadaeth mewn byd sy'n newid. Ar gyfer ei thema pwysleisiodd Cam mai'r sylfaen ar gyfer unrhyw genhadaeth yw'r ddiwinyddiaeth sy'n sail i hynny. Wrth annerch ar 1 Pedr 2:9-10, roedd ei sgysiau yn cwmpasu pynciau hunaniaeth, cymeriad a galwedigaeth a'r modd yr oedd hynny'n ymwneud â natur genhadol Duw.

Braint oedd cael dod i adnabod Cam a chlywed am ei wreiddiau Cymreig yn y Fenni a Phentreuchaf, Pwllheli. Gwerthfawrogwyd ei ymrwymiad gwylaidd a gonest yn y ddwy

gynhadledd wrth iddo esbonio nad yw cenhadaeth yn dod ag ateb cyflym ond yn hytrach ei fod yn rhywbeth sy'n llifo allan o'n dealltwriaeth o Dduw. Rydym yn edrych ymlaen at gynnal sgysiau ledled Cymru gael eu gwahodd i ymuno ar gyfer hyfforddiant pellach a fydd yn dechrau ym mis Medi.

"Roedd y gynhadledd yn gyfle da i gyfarfod efo gweinidogion eraill ac i ystyried sut y medrwn ni helpu ein heglwysi i ymuno efo cenhadaeth Duw i'r byd. Mae gan Cam Roxburgh galon fawr dros Gymru ac mae am weld teyrnas Dduw ar waith yn ein gwlad."

Deb Stammers – Gweinidog dan hyfforddiant, Môn.

"Braint oedd cael treulio amser gyda'n gilydd fel gweinidogion UBC yn Saundersfoot yn ddiweddar. Roedd y gymdeithas yn galonogol yn y sesiynau ffurfiol ac yn y sgwsio anffurfiol. Her i'r meddwl a chynnes i'r galon oedd cyfraniad Cam, y siaradwr gwadd. Plethodd adnodaau, profiadau a storïau at ei gilydd er mwyn ein calonogi yn ein gwaith o genhadu."

Parchg Geraint Morse - Penfro

"Gadewch inni ddal yn ddiwyro at gyffes ein gobaith, oherwydd y mae'r hwn a roddodd yr addewid yn ffyddlon. Gadewch inni ystyried sut y gallwn ennyn yn ein gilydd gariad a gweithredoedd da, heb gefnu ar ein cydgynulliad ein hunain, yn ôl arfer rhai, ond annog ein gilydd, ac yn fwy felly yn gymaint â'ch bod yn gweld y Dydd yn dod yn agos."

Hebraid 10: 23-25

GWEDDI'R PASG

O Dduw bywiol, yr hwn sy'n cynnig bywyd newydd a gwahanol i ni yn Iesu, molwn di ar ddydd gorfoleddus y Pasg. Gad i lawenydd yr ŵyl fod yn amlwg yn ein mawl a'n haddoliad fel yn ein byw a'n bod o ddydd i ddydd. Boed i'r bywyd newydd a ddathlwn yn Iesu ein harwain i weld y gobaith sydd o'n cwmpas ym mhob arwydd o wanwyn ac ail-ddeffro, ac i weld y cyfleon i ysbrydoli ffydd ynom ni ac mewn eraill.

Gweddiwn bod neges y Pasg yn cynnig cysur i'r rhai sydd mewn gofid wrth iddo ddangos bod bywyd yn drech nac angau a bod goleuni yn drech na'r tywyllwch, yn Iesu. Lle mae unigrwydd, gweddiwn am gwmni wrth i ninnau fod yno yn cynrychioli dy bresenoldeb di. Lle mae rhyfel, gweddiwn am heddwch wrth i ninnau weithredu dy dangnefedd di.

Lle mae anobaith, gweddiwn am obaith wrth i ninnau ddangos ffordd Iesu a honno'n ffordd ar gyfer ein holl anghenion ni fel pobl y ddaear. Cyflwynwn ein deisyfiadau ger dy fron yn edifar am ein methiannau a'n gwendidau i gyd a gofynnwn i ti aros gyda ni, y Duw bywiol, yn dy gwmni a'th gariad a'th dangnefedd. Amen.

Parchg Alwyn Daniels



**Bendithion y Pasg oddi wrth
Judith, Simeon, Menna, Bonni,
Nigel, Helen a Christian.**